ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH
RHIFYN 3.19 • GWANWYN 2005 • £1



YR ALWAD NEWYDD AM DDEDDF EIDDO

» **DEDDF IAITH NEWYDD**
FFORWM YN SYMUD YR YMGYRCH YMLAEN

» **CYHOEDDI LLEOLIADAU STEDDFOD**
GRUFF RHYS I CHWARAE GIG ARBENNIG

» **NEWYDDION YMGYRCHU LLEOL A CHENEDLAETHOL**

CYFARFOD CYFFREDINOL 2005
2 EBRILL, ABERYSTWYTH

YMLAELODWCH

Ffurflen Ymaelodi

Enw

_____

Cyfeiriad

_____

_____

_____

Côd post

_____

Rhif ffôn

_____

Cyfeiriad e-bost

_____

Dyddiad geni

_____

Mae gen i ddiddordeb yn:

- ❑ Yr ymgyrch dros statws i'r Gymraeg
- ❑ Yr ymgyrch dros Gymunedau Rhydd
- ❑ Yr ymgyrch addysg

❑ Rwy wedi bod yn aelod o'r blaen

❑ Myfyriwr Ysgol, Coleg Ged **£2**
Enw eich ysgol

_____

❑ Myfyriwr Coleg **£4**
Cyfeiriad yn ystod y tymor

_____

_____

_____

❑ Gwaith Llawn Amser **£10**
Ym mha faes ydych chi'n gweithio?

_____

❑ Di-gyflog **£4**

❑ Pensiynwr **£4**

❑ Aelodaeth teulu (plant dan 16) **£20**
Nifer oedolion ____ a phlant ____

❑ Hoffwn gyfrannu yn unig

❑ Nid wyf am dderbyn gobebiaeth

Manylion Banc

At sylw'r Rheolwr:
Enw'r banc

_____

Cyfeiriad y banc

_____

_____

_____

Enw'r cyfrif

_____

Rhif y cyfrif

_____

Yr wyf yn eich awdurdodi i dalu i gyfrif **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhif 81072102,** Banc HSBC, 24 Sgwâr y Castell, Caernarfon, **40-16-02**

Ar y cyntaf o fis _____,

blwyddyn _____, ac wedi hynny

bob mis y swm o £ _____.

Arwyddwyd

_____

Dyddiad

_____



ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH

CYFROL 3 – RHIFYN 19
(GWANWYN 2005)
ARGRAFFWYD GAN
WASG MORGANNWG
DYLUNIO GAN IWAN STANDLEY, ÂNGEL
GOLYGYDD NIA WILLIAMS
LLUNIAU IWAN STANDLEY

Os oes gennych chi unrhyw straeon neu newyddion o'ch ardal chi, danfonwch nhw atom naill ai trwy'r cyfeiriad uchod, neu at **tafod@cymdeithas.com**. Am fanylion am ein prisiau hysbysebu, cysylltwch â'r brif swyddfa.

cymdeithas yr IAITH gymraeg

PRIF SWYDDFA
PEN ROC
RHODFA'R MÔR
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 2AZ
FFÔN 01970 624501
FFACS 01970 627122
E-BOST SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM
Y WE WWW.CYMDEITHAS.COM

O'R CADEIRYDD

CYNLLUNIO DYFODOL

Gair gan y Cadeirydd, **Huw Lewis**

Wrth i'r rhifyn hwn o'r Tafod fynd i'r wasg, bydd aelodau Cymdeithas yr Iaith Ceredigion, yng nghanol cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad cyhoeddus i gynllun datblygu unedol y cyngor sir.

Dyma benllanw tair mlynedd o ymgyrchu yn erbyn y cynllun datblygu. Cynllun hynod ddadleuol, sydd yn argymell rhoi caniatâd cynllunio i hyd at 6,500 o dai newydd. Cynllun a gafodd ei lunio heb unrhyw ymchwil i ddarganfod yr angen lleol am dai na natur y stoc o dai sydd eisoes ar gael. Trwy gydol yr ymgyrch pwysleisiodd aelodau'r Gymdeithas y byddai gweithredu polisi o'r fath yn annog cyfnod pellach o fewnfudo i Geredigion, gan danseilio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir.

Tra'n croesawi'r cyfle i gyflwyno ein tystiolaeth, mae'n amheus i ba raddau y bydd Stephanie Chivers ac Alwyn Nixon, arweinwyr yr ymchwiliad, yn rhoi ystyriaeth deg i fuddiannau'r Gymraeg. Deilliai'r pryder hwn o'r ddogfennaeth uniaith Saesneg – yn cynnwys papurau tystiolaeth pwysig – a dderbyniwyd gan swyddfa'r ymchwiliad. Mae'r ffaith nad oes un o'r arolygwyr annibynnol, a benodwyd gan y Cynulliad, yn gymwys i gadeirio gwrandawiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwydd ynddo'i hun o'r diffyg ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae aelodau Cymdeithas yr Iaith yng Ngheredigion wedi ysgrifennu ddwywaith at Carwyn Jones, gweinidog amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad llywodraeth y Cynulliad, gan ofyn iddo sut yr oedd yn bwriadu sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael sylw dyledus yn ystod yr ymchwiliad. Ni dderbyniwyd ateb ganddo.

Mae'r driniaeth ymylol a dderbyniodd y Gymraeg hyd yn hyn fel rhan o ymchwiliad cyhoeddus Ceredigion yn destun pryder difrifol. Pan ystyrir na fu'r un ymchwiliad cyhoeddus tebyg o'r blaen ceir gafael ar pa mor ymylol mewn gwirionedd yw statws y Gymraeg yn y proffesiwn cynllunio yn gyffredinol. O ystyried y methiannau hyn sut all casgliadau'r ymchwiliad roi sylw dyledus i ddyfodol yr iaith Gymraeg?

Yn wir, os nad yw arweinwyr yr ymchwiliad yn ei gweld hi'n ddigon pwysig i gymryd y cam syml o ddarparu deunydd tystiolaeth dwyieithog, pa obaith sydd iddynt ddeall y bygythiad i'r Gymraeg yng nghynllun datblygu unedol y cyngor sir?

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi bod o gymorth i mi dros y blynyddoedd diwethaf. Ond, diolch yn arbennig i Dafydd am ei gymorth a'i gyngor cyson. ✆

Hwn yw'r tro olaf y bydd Huw'n ysgrifennu'r golofn hon, gan y daeth yr awr iddo drosglwyddo cyfrifoldebau'r Cadeirydd i rywun arall. Diolch iddo am ei holl waith dyfal a'i arweinyddiaeth.

STATWS

FFORWM DEDDF IAITH YN GALW AM **SYMUD YMLAEN**

Daeth croesdoriad o fudiadau a sefydliadau Cymreig i'r Fforwm Genedlaethol ar Ddeddf Iaith a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Aberystwyth ar Fawrth 14eg.

Cafwyd anerchiadau gan Huw Lewis, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Hywel Williams, aelod seneddol Arfon a gyflwynodd ddrafft fesur o Ddeddf Iaith Newydd, a Jill Evans ASE a roddodd amlinelliad o rai newidiadau perthnasol yn Ewrop.

Galwyd am gryfhau'r ddeddfdwriaeth bresennol gan sicrhau cryfhau pwerau'r ddeddf yn y sector gyhoeddus a phreifat. Nodwyd mai hwn oedd yr amser priodol i fynnu newidiadau gan

> "Mae'n arwyddocaol mai yr hyn yr ydym yn ei wneud heddiw yw nid trafod os oes angen Deddf Iaith a'i peidio ond yn hytrach beth fyddai cynnwys deddfwriaeth newydd."

y byddai angen deddf newydd i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac y dylid manteisio ar y cyfle hwnnw i gryfhau'r ddeddf iaith sydd gennym ar hyn o bryd. Nodwyd fod y drws wedi ei agor ar gyfer sicrhau deddfwriaeth newydd ond bod yn rhaid ei wthio ar agor ymhellach.

Gwnaed un o'r sylwadau mwyaf arwyddocaol ar y diwrnod gan Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg a ddywedodd:

"Mae'n arwyddocaol mai yr hyn yr ydym yn ei wneud heddiw yw nid trafod os oes angen Deddf Iaith a'i peidio ond yn hytrach beth fyddai cynnwys deddfwriaeth newydd."

Dywedodd Huw Lewis cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

"Y cam nesaf i ni yng Nghymdeithas yr Iaith Gymraeg fydd cyfarfod gydag Alun Pugh, y gweinidog gyda chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg ar Ebrill 13eg lle byddwn yn defnyddio'r pwyntiau a gododd yn y Fforwm i ddadlai'r achos dros gyflwyno Deddf Iaith Newydd." ✆

Gweithredu uniongyrchol ar y strydoedd

Yn ystod y nadolig bu'r Gymdeithas yn gweithredu yn gyson yn erbyn cwmnïau preifat mewn trefi ar hyd a lled Cymru. Yn ddiweddar ailgydiwyd yn y gweithredu cyson hwn er mwyn tynnu sylw at yr angen am Ddeddf Iaith Newydd.

Ein targed yw llu o gwmnïau preifat megis Woolworths, Peacocks, Argos, New Look, Sweetmans a Boots. Y weithred yw gorchuddio eu ffenestri â sticeri gludiog, sydd yn gofyn 'Ble mae'r Gymraeg?' Pam gwneud hyn? Er mwyn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r Ddeddf Iaith bresennol yn cyffwrdd â'r sector preifat ac felly bod cwmniau ou bath yn rhydd i gynnig y mwyafrif o'u gwasanaethau trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Os hoffech chi ymuno yn yr ymgyrch, cysylltwch â swyddfa'r Gymdeithas ar 01970 624501 neu swyddfa@cymdeithas.com

Mae syniadau ymgyrchu ar ein gwefan www.cymdeithas.com ✆

STATWS

Jenny Randerson yn galw am Ddeddf Iaith Newydd!

Mae'r cyn-weinidog diwylliant a'r Gymraeg, Jenny Randerson, wedi datgan ei chefnogaeth i'r ymgyrch dros Ddeddf Iaith Newydd mewn araith yn y Cynulliad Cenedlaethol. Wrth drafod ceisiadau'r Cynulliad am ddeddfwriaeth gan San Steffan, dywedodd y Rhyddfrydwraig Democrataidd:

"We believe that the time is now right for reform and a new Welsh Language Act. It's one of the ironies of the restrictions on our powers that we have to go cap in hand to Westminster and ask a Parliament overwhelmingly consisting of English MPs to provide us with a new Welsh language Act. The current Act is out of date ... the new Act needs to deal with the utilities that have migrated from the public sector to the private sector since the current Act was passed."

Mae hwn wrth gwrs yn dilyn y fforwm i drafod deddfwriaeth ieithyddol a gynhaliwyd gan y Gymdeithas yn Aberystwyth yr wythnos cynt.

Mae'r Gymdeithas yn barod wedi trefnu cyfarfod gyda Alun Pugh ar Ebrill 13eg i drafod y mater, ac mae'r Gymdeithas yn awr yn cysylltu gyda gweddill y pleidiau gwleidyddol er mwyn trefnu cyfarfod gyda hwy hefyd i drafod y mater, ac er mwyn gwneud yr angen am ddeddfwriaeth iethyddol newydd i Gymru yn bwnc etholiadol.

YMGYRCH I GYMREIGIO BWS CAERDYDD

Ar Fawrth 19ain bu aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gweithredu yn erbyn arosfannau Bws Caerdydd yn y brifddinas. Dywedodd Steffan Cravos, aelod o Ranbarth Morgannwg Gwent y Gymdeithas:

"Mae'r amserlenni yn yr arosfannau, enwau'r arosfannau, yr amserlenni papur, tocynnau a gwefan Bws Caerdydd yn uniaith Saesneg. Cyn y Nadolig bu Cymdeithas yr Iaith yn gweithredu yn gyson yn erbyn cwmniau preifat mewn trefi a dinasoedd ar hyd a lled Cymru, ac rydym yn bwriadu parhau gyda'r ymgyrchu gweithredol! Dro ar ôl tro, fe welir fod cwmniau a sefydliadau yn parhau i wrthod cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sathru ar hawliau siaradwyr Cymraeg. Ni fydd hyn yn newid hyd nes ceir Deddf Iaith Newydd."

Bellach, mae dros ddegawd ers pasio'r Ddeddf Iaith bresennol. O ganlyniad, mae nawr yn adeg briodol i ddechrau ystyried yr angen i ddiwygio a chryfhau'r ddedfwriaeth. O ystyried y modd y mae preifateiddo, ynghyd â'r twf yn nylanwad technoleg, yn trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau eu cynnig, mae angen gwneud hyn ar frys. Os na fyddwn yn wynbeu'r her, bydd siaradwyr Cymraeg yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.

CYMUNEDAU

BARCELONA A CHAERNARFON

Dafydd Morgan Lewis gafodd ei ysbrydoli

Newydd ddod yn ôl o Barcelona oeddwn i ar ôl treulio tridiau yno rhwng y 'Dolig a'r flwyddyn newydd.

Roedd yna ugain mlynedd ers pan fûm i yn y ddinas o'r blaen ond nid oedd wedi colli dim o'i chyfaredd. Mae prifddinas Catalunya, gyda'i hamgueddfeydd, ei heglwysi a'i phensaernïaeth drawiadol yn lle sy'n tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli dyn.

Mae gwleidyddiaeth gyfoes y wlad y mae Barcelona yn brifddinas iddi yn ddiddorol a chyffrous hefyd. Ar hyn o bryd mae ymgyrch ar droed i sicrhau fod Catalaneg yn cael ei chydanbod fel iaith swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd.

Drannoeth, ar ôl dychwelyd o wlad yr haul roeddwn i ar daith i brifddinas arall – Caernarfon, prifddinas Gwynedd. Dydy'r lle ddim cweit mor fawr â Barcelona ond rhwng y castell a phencadlys y cyngor sir mae i'r dre bensaernïaeth nodedig.

Un o'r pethau mwyaf calonogol wrth deithio i'r gogledd oedd gweld posteri'r Gymdeithas ar gefn pob arwydd o Ddolgellau i Benrhyndeudraeth. Ein haelodau ym Meirionnydd wedi bod yn brysur iawn dros yr ŵyl!

Y rheswm dros fynd i Gaernarfon oedd fod Cymdeithas yr Iaith yn trefnu Rali'r Calan yno i dynnu sylw, unwaith eto, at y broblem dai sydd yng Nghymru ac i dynnu sylw at yr argraffiad newydd o'r Llawlyfr Deddf Eiddo sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Aeth pedair blynedd ar ddeg rhagddi ers pan gyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ac wele ni yn dal i frwydro. Fel y dywed y paragraff clo yn rhagymadrodd yr argraffiad newydd:

> **"Carreg sylfaen ein dadleuon yn y ddogfen hon yw'r gred mai diben tai yw darparu cartrefi yn hytrach na chael eu hystyried yn 'nwyddau', yn 'fuddsoddiad', neu'n ffynhonnell ariannol ychwanegol ar gyfer hapfasnachwyr. Er mwyn sicrhau parhad yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw, rhaid sicrhau cartrefi i siaradwyr Cymraeg ac etifeddion yr hunaniaeth Gymreig"**
>
> **Llawlyfr Deddf Eiddo, 2005**

Mae'r Gymdeithas wedi trefnu cyfres o ralïau Calan erbyn hyn ond, yn rhyfedd iawn, hon oedd y gyntaf i mi fod ynddi. Felly roedd cael dros 200 o gefnogwyr ar y Maes yn ysbrydoliaeth. Huw Lewis, y cadeirydd, a Sel Jones

CYMUNEDAU

Gyferbyn *torf yn casglu ar y Maes yng Nghaernarfon*
Chwith isod *Sel Jones yn esbonio chwe phwynt Deddf Eiddo*
Chwith dde *Gosod proclemasiwn ar adeilad y Cynulliad*

oedd y siaradwyr. Aeth Sel drwy chwe phwynt Deddf Eiddo:

1. **Asesu'r Angen Lleol**
2. **Tai ac Eiddo i'w Rhentu**
3. **Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf**
4. **Blaenoriaeth i Bobl Leol**
5. **Cynllunio i'r Gymuned**
6. **Ailasesu Caniatad Cynllunio**

Gallai Sel fel llawer aelod arall o'r Gymdeithas adrodd a thrafod y pwyntiau hyn yn ei gwsg bellach. Erbyn hyn mae rhywun yn synhwyro (gan fod yna argyfwng tai nid yn unig yng Nghymru ond yn Lloegr hefyd) fod y gwleidyddion y dechrau gwrando. Yn anffodus mae'r ewyllys wleidyddol i fynd i'r afael â'r broblem yn dal yn wan.

O'r Maes aed at adeilad y Cynulliad yn y dre, lle codwyd proclemasiwn oedd yn galw am reoli'r Farchnad Dai ac yn cyhuddo llywodraeth y Cynulliad o fethu a gweithredu'n effeithiol er mwyn datrys yr argyfwng.

Yna pawb ymlaen i'r Institiwt i drafod y camau nesaf yn yr ymgyrch.

Mae yna lawer i'w ddweud dros ralïau. Yn bennaf rhoddant gyfle i bobl o gyffelyb fryd ac argyhoeddiad ddod at ei gilydd gan addunedu i ddyfalbarhau. Roedd yr ysbryd hwn o gydymdrechu er mwyn cael y maen i'r wal i'w deimlo'n gryf yng Nghaernarfon. Cyfunwch hyn gyda'r ymweliad â Barcelona ac fe'm argyhoeddwyd i, beth bynnag, y bydd 2005 yn flwyddyn bwysig a chyffrous yn frwydr dros ddyfodol y Gymraeg. ✆

NEWYDDION

CAU NAW YSGOL YN SIR DDINBYCH

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi penderfynu cau naw ysgol yn y sir. Mae'n loes calon i mi'n bersonol mai'r ddau awdurdod addysg mwyaf adweithiol yng Nghymru ar hyn o bryd yw Sir Gaerfyrddin, lle rwy'n byw yn awr a Sir Ddinbych, lle cefais fy magu.

Nid oes reswm addysgol dros gau'r ysgolion hyn a thra fod un adran o lywodraeth y Cynulliad yn annog datblygu cymunedol a sgiliau newydd mae adran arall, yr adran addysg, yn gyfrifol am dynnu i ffwrdd yr asedau pwysicaf sydd gan gymunedau sef eu hysgolion.

Mewn cyfarfod rai blynyddoedd yn ôl fe ddywedodd Jane Davidson nad oedd angen rhagfarnu cadarnhaol o blaid ysgolion pentrefol yma yng Nghymru fel yn Lloegr gan mai dim ond un neu ddwy ysgol y flwyddyn fyddai'n cael eu cau yng Nghymru. Erbyn hyn mae cyflafan ar y gorwel ac fe fyddwn yn disgwyl ymateb gan y Cynulliad yn y diwedd.

Mewn ymateb i benderfyniad Cyngor Sir Ddinbych mae Cymdeithas yr laith wedi galw am gyfarfod brys gyda Jane Davidson. Canolbwynt y trafod fydd yr angen i sefydlu canllawiau cadarnhaol ar gyfer datblygiad addysgol yn y sir a gwneud hynny drwy gyfuno cyllidebau addysg a datblygu cymunedol.

"MAE CYFLAFAN AR Y GORWEL..."

Fred Ffransis

SICRHAU LLE I'R GYMRAEG YN MAES CYFATHREBU

Fel y mudiad a wnaeth fwy na neb i sefydlu sianel deledu Gymraeg yn y lle cyntaf mae Cymdeithas yr laith Gymraeg yn mynnu fod sicrhau dyfodol i S4C fel rhan o'r ddarpariaeth ddarlledu yng Nghymru yn hanfodol. Am hynny, rhaid edrych yn ofalus ar adroddiad Ofcom (adroddiad ar ddyfodol darlledu yng Nghymru).

Rydym eisioes yn gwybod na allwn ni ymddiried yn Ofcom i warchod buddiannau'r Gymraeg yn y maes darlledu yng Nghymru. Fel y dangoswyd ar y Byd ar Bedwar yn ddiweddar fe fethodd Ofcom a gwneud hyn yng nghyd-destun Radio Sir Gaerfyrddin. Mae sicrhau dyfodol y Gymraeg ym maes teledu yn mynd i fod yn dipyn mwy o sialens iddynt.

CRYSAU CHWYLDROADOL!

CYF CYFF

'MY MIND IS MY OWN' CHWEDL RAY DAVIES...

Angharad Tomos sy'n cloriannu ei gyfraniad

Gyda Ray Davies yn gynghorydd Llafur ar Gyngor Caerffili, efallai y bydd ambell un yn holi pam y'i dewiswyd fel siaradwr gwadd yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas. Pan glywn iddo gael ei ryddhau o garchar yn gynharach eleni, falle ei bod yn haws deall. Rebel fuo Ray erioed a rebel fydd o.

Dydw i ddim yn cofio pryd y'i gwelais gyntaf, ond mae'n rhaid fod deng mlynedd a mwy, ac roedd ganddo wallt gwyn bryd hynny. Protestio dros addysg Gymraeg yr oeddem, ac er ei fod yn ddi-Gymraeg, mynnai Ray gael dangos ei ochr. Cwrddais ag ef yn awr ac yn y man wedyn, yn aml fel un o aelodau brwd Côr Cochion, sy'n enwocach am eu protestio efallai nag am eu canu! Mi fyddaf wrth fy modd yn gwylio Ray yn canu, mae'n rhoi cant y cant i'r gân, yn union fel popeth arall yn ei fywyd. Pan ddaeth y Torïaid a chynllun gwallgof Treth y Pen, gwrthododd Ray Davies dalu ceiniog, a bu yng ngharchar bedair gwaith yn ystod yr wythdegau am beidio talu'r dreth.

Mae gen i lun da ohono – ar lan Llyn Celyn, fel mae'n digwydd bod, yn dal ei ddwrn yn yr awyr ac yn morio canu efo gwên lydan dan y beret coch. Protest o blaid y Cwrdiaid oedd honno, pan oedd bygythiad gan Balfour Beaty i godi argae Ilisu. Gallai Ray wneud y cysylltiad yn syth rhwng y rhaib a ddioddefodd Cymru a'r un oedd yn bygwth y Cwrdiaid. Fel dywedodd Waldo, "Yr un yw baich gwerin byd".

Yn ogystal â bod yn gynghorydd, mae yn is-gadeirydd CND Cymru, ac mae ymgyrchu dros heddwch yn bwysig iawn iddo. Eto, nes darllen cyfweliad ag o yn Seren, ychydig iawn a wyddwn am ei fagwraeth.

Yn Llanbradach, ger Caerffili y'i magwyd, a'i dad yn gweithio yn y gwaith glo – fel pob tad arall. Gan mai y tridegau oedd y cyfnod, roedd yn ddiwaith ar y pryd. Roedd yn rhaid iddo ddwyn glo i gadw'r teulu yn gynnes, ac fe'i cosbwyd fel un o swyddogion yr undeb wedi i'r awdurdodau ei ddethol fel un o'r rhai ymysg Gorymdeithiau'r Newynog.

Yr oedd Ray yn un o wyth o blant, a phan oedd yn 13 oed, roedd ei fam yn disgwyl y nawfed plentyn ac roedd angen iddi fynd i'r ysbyty, ond roedd prinder gwelyau. Wrth iddi gychwyn esgor, anfonwyd Ray allan i chwilio am nyrs. Mae ganddo gof plentyn byw iawn o'r bore wedyn, y fam yn cael ei chludo allan o'r tŷ ar stretcher, a'r diwrnod canlynol, bu farw. Parodd y farwolaeth honno i'r teulu gael ei chwalu. Aed â chwiorydd Ray i gartref i blant amddifad, mabwysiadwyd y babi, ac anfonwyd Ray a'i frawd i fyw gyda modryb a gorfu iddo ddechrau gweithio – a'r cyfan oherwydd na lwyddodd y fam i gael gofal meddygol pan oedd ei angen. Dyna oedd diwedd ffydd Ray, aeth i ben mynydd a gweddio gan fynnu os oedd Duw, na fyddai byth yn caniatáu'r fath beth.

Dyna sut y canfu Ray ei hun yn dilyn y cenedlaethau o'i flaen ac yn gweithio ar wythien lo dan ddaear am naw mis. Daeth i gysylltiad â chomiwnyddion, a dysgu egwyddorion sy'n llywio ei fywyd hyd heddiw. Arweiniodd streic am amodau gwell i'r bechgyn oedd yn gweithio dan ddaear. Yn ystod y streic, roedd hi'n braf aros adref i chwarae cowbois ac indiaid yn y coed – plant oedden nhw'n dal i fod. Diwedd y mater oedd cytundeb i roi mis o hyfforddiant i fechgyn oedd yn gweithio dan ddaear. Dysgodd Ray nad oedd y pethau da yn dod oddi uchod fel manna, ond bod yn rhaid brwydro drostynt.

Yn un ar hugain oed, nid oedd modd iddo ymuno â'r Blaid Gomiwnyddol gan fod prif drefnydd y pentref newydd farw, felly fe'i perswadiwyd gan gyfaill i ymuno â'r Blaid Lafur. Wedi'r cyfan, dyma'r blaid a sefydlwyd gan undebau llafur i gael cyfiawnder i'r gweithwyr. Yr oedd hefyd yn ymgyrchu gyda Ffederasiwn y Glöwyr. Mynd a dod yw hynt pleidiau, ond roedd 'y Ffed' wastad yno i fod yn gefn gwleidyddol a diwydiannol i hyrwyddo cyfiawnder.

Gwendid a barodd iddo adael y gwaith glo yn y diwedd, gwendid o ganlyniad i ddamweiniau yn y gwaith. Cafodd ddwy godwm, torrodd ei ysgwydd a'i goes, ac roedd wedi cael y diciâu a diptheria yn blentyn. Aeth i weithio mewn ffatri cyn cael ei alw i wneud Gwasanaeth Cenedlaethol. Pan ddychwelodd, ymunodd ag Undeb y Gweithwyr Cyffredinol, a chafodd ei addysgu gan yr undeb hwnnw. Frank Cousins oedd yr ysgrifennydd cyffredinol, ac ef ynghyd ag undebwyr eraill a sefydlodd y mudiad heddwch. Oherwydd dylanwad Cousins yr ymunodd Ray â CND.

Y drafferth i Ray yn ystod y cyfnod hwn oedd ei wraig! Roedd hi'n wrthynebus i'w gŵr wneud dim gyda'r mudiad heddwch, hyd yn oed wisgo bathodyn. Yr unig ffordd y llwyddodd i fynd ar Orymdaith Aldermaston oedd oherwydd ei fod yn cyd-daro â chynhadledd undebau yn Llundain. Yn anffodus i Ray, dangoswyd yr orymdaith ar y teledu a chafodd ei adnabod gan ei wraig! 1958 oedd y cyfnod, a bryd hynny, mynnai'r Blaid Lafur na chai ei baneri hi gael eu cludo ar deithiau heddwch.

Ni chaiff Ray unrhyw drafferth yn ceisio rhannu ei amser rhwng ymgyrchoedd rhyngwladol a'i gyfrifoldeb fel cynghorydd.

CYF CYFF

Ochrau gwahanol o'r un geiniog ydynt iddo ef. Ni fedr wahanu ei hun oddi wrth ei gymuned ac mae wedi ymgyrchu yn ddyfal ar bynciau fel ysbytai, gwasanaethau cymdeithasol a ballu. Mae cnewyllyn yr ymgyrchoedd hyn – hawliau dynol, heddwch a chyfiawnder – yr un peth â chnewyllyn ymgyrchoedd rhyngwladol. Petai'r llywodraeth ganolog yn poeni yn wirioneddol am fuddiannau ei phobl, yna byddai'r arian gaiff ei wario ar 'amddiffyn' yn cael ei wario er lles y bobl, a byddai hynny'n datrys problemau ar lefel gymunedol.

Wedi bod yn gynghorydd am 41 mlynedd, mae'n dal yn dod yn agos iawn at gael ei ddiarddel. Ond ni fedr adael y blaid yr ymladdodd ei dad i'w sefydlu. I Ray, mae'r freuddwyd yn dal yn un fyw iawn, mae heddwch a chyfiawnder yr un mor bwysig, ac ni fedr weld pam y mae'n rhaid iddo ef fradychu ei egwyddorion dim ond am fod Tony Blair a'i debyg wedi cipio awennau y blaid.

Yr hyn sy'n ei gadw i fynd ac i ddyfalbarhau yw ei wraig annwyl Wendy, a'i ddau o blant ifanc. Wedi'r cyfan meddai, "mae gan bawb ran i'w wneud os ydynt yn bump, yn ugain neu yn bedwar ugain oed. Ddaw y byd y chwenychwn ddim ohono ei hun, mae'n rhaid inni wneud ein cyfraniad, ond mi ddaw yn y diwedd."

Chafodd ei garchariad yn gynharach eleni (pythefnos am wrthod talu dirwy wedi gweithredu gyda CND yn Faslane) fawr o gyhoeddusrwydd, ond diolch ein bod yn gallu defnyddio cyfryngau fel y Tafod i daenu'r neges am rai o'n gwrol ryfelwyr.

Os ydych am ddarllen y cyfweliad yn llawn, darllenwch Seren, a diolch iddynt am y wybodaeth – news@serencymru.org

CYFARFOD CYFFREDINOL
SADWRN, 2il EBRILL 2005
ABERYSTWYTH

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol blynyddol yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 2 Ebrill, yn **Ystafell Seddon, Yr Hen Goleg, Aberystwyth** rhwng 10 a 4.

Y siaradwr gwadd yw y Cynghorydd Ray Davies o Gyngor Bwrdeisdref Caerffili.

Dewch draw i glywed am waith y Gymdeithas dros y flwyddyn aeth heibio, a llunio ymgyrchoedd y flwyddyn sydd i ddod.

Etholir Senedd y Gymdeithas am 2005-2006 yn ogystal.

Rhaglen y Dydd

10.30 – 11.00 Cofrestru

11.00 – 11.30 Addysg
- Adroddiad Grwp
- Cynigion

11.30 – 12.00 Deddf laith Newydd
- Adroddiad
- Cynigion

12.00 – 12.30 Deddf Eiddo
- Adroddiad
- Cynigion

12.30 – 13.30 Cinio

13.30 – 14.00 Cynigion Awrywiol
- Rhanbarthau
- Celloedd
- Cynigion Brys

14.00 – 14.30 Siaradwr Gwadd
- Y Cynghorydd Ray Davies

14.30 – 15.00 Cloi
- Cyhoeddi Enwau Aelodau Senedd 2005/06
- Araith y Cadeirydd

CYF CYFF

CYNIGION

Cyngor Ceredigion

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- benderfyniad diweddar Cyngor Ceredigion i benodi swyddog ieuenctid nad sy'n siarad Cymraeg;
- y ffaith bod y cyngor ond wedi darparu dogfennau tystiolaeth uniaith Saesneg fel rhan o ymchwiliad cyhoeddus y Cynllun Datblygu Unedol.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

- bod yr enghraifft uchod yn dangos bod Cyngor Ceredigion yn parhau i fod yn sefydliad sydd yn gweithredu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol:

- ar Gyngor Ceredigion i fabwysiadu rhaglen a fydd yn sefydlu'r Gymraeg fel iaith weinyddol fewnol y sefydliad;
- ar y cyngor i gynnal awdit o sgiliau iaith ei staff presennol;
- ac ar y cyngor i baratoi amserlen ar gyfer cyflawni'r nod uchod.

Cynigydd: Rhanbarth Ceredigion

Deddf Eiddo

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol:

- y gwaith a wnaed gan y grŵp ymgyrchu Cymunedau Rhydd yn adolygu polisi Deddf Eiddo y Gymdeithas;
- bod y gwaith hwnnw bellach yn tynnu i'w derfyn.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol:

- bod polisi Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith yn cynnig nifer o atebion i'r argyfwng tai sydd yn tanseilio ein cymunedau.

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol:

- ar y grŵp ymgyrchu Cymunedau Rhydd i drefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd er mwyn dod a chynigion Deddf Eiddo i sylw aelodau'r Cynulliad, yr awdurdodau lleol a chyrff perthnasol ym maes tai a chynllunio.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Cymunedau Rhydd

Cyllido Addysg Uwch Gymraeg

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i greu trefn unigryw o ran cyllido addysg uwch yng Nghymru yn unol â'n anghenion.

Galwn yn arbennig:

1. Am bolisi o godi ffioedd (ar yr un raddfa â Lloegr) ar fyfyrwyr o du allan i Gymru, ond i hepgor ffioedd ar fyfyrwyr o Gymru, mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.
2. Am gyflwyno cymhellion ariannol ychwanegol i annog myfyrwyr i ddilyn nifer o gyrsiau mewn Coleg Ffederal Cymraeg. Yn hytrach na cheisio arian gan fyfyrwyr unigol dylid creu model newydd lle dylai Coleg Ffederal Cymraeg yn cael ei integreiddio'n well i fywyd Cymru a derbyn llawer o'i gyllid gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a phreifat drwy gyfundrefn ymchwil iddynt.

Nodwn y bydd Coleg Ffederal Cymraeg fel hyn yn cynnig addysg Gymraeg berthnasol a fydd yn cryfhau ein cymunedau ac yn cynnig profiad addysg gwerthfawr i'n myfyrwyr.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Addysg

A wna Jane Davidson wrando ar gymumedau lleol?

1. Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn sylwi fod bygythiad i ddegau o ysgolion pentrefol Cymraeg ar waethaf canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol.
2. Sylwn nad yw Jane Davidson erioed wedi caniatáu unrhyw apêl yn erbyn cau ysgol.
3. Sylwn ymhellach ei bod yn gwrthod cyfarfod â chynrychiolwyr cymunedau sydd dan fygythiad gan honni fod ei swyddogaeth dyfarnu apeliadau yn gwneud hyn yn amhosibl – a hynny er bod ei swyddogion mewn cyswllt cyson â swyddogion addysg lleol o'r ochr arall.
4. Ni chredwn fod modd cynnal safbwynt y Gweinidog Addysg a galwn arni i gyfarfod â dirprwyaeth o Gymdeithas yr Iaith ac aelodau cymunedau sy'n wynebu colli eu hysgolion er mwyn trafod yr holl bosibiliadau cadarnhaol o ran datblygu'r ysgolion hyn.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Addysg

STEDDFOD

GIGS EISTEDDFOD ERYRI 2005
GRUFF RHYS A MWY...

Gruff Rhys yn chwarae yn Steddfod Solfach 2003

Oeddech chi'n un o'r rhai lwcus a lwyddodd i gael tocyn i un o gigs diweddar Gruff Rhys ac wedi'ch plesio gymaint nes eich bod ar bigau i'w weld eto?

Neu oeddech chi'n hollol siomedig eich bod wedi methu cael tocyn i un o'r gigs i hyrwyddo'r albwm Yr Atal Genhedlaeth? Wel, fe gewch un cyfle arall i weld prif ganwr y Super Furry Animals yn perffomio ar ben ei hun gan y gallwn gyhoeddi y bydd yn perfformio mewn gig arbennig iawn yn Eiteddfod Genedlaethol 2005!

Fel arfer, mewn cyd-weithrediad â phobl leol, bydd Cymdeithas yr laith Gymraeg yn cynnal gigs yn ystod wythnos yr Eisteddfod eleni, a hynny yng nghanolfannau gorau yr ardal. Bydd dwy brif ganolfan i'r gigs yn Eisteddfod eleni, sef Amser ym Mangor a Cofi Roc yng Nghaernarfon. Unwaith eto bydd y Gymdeithas yn cynnig arlwy o fandiau ac artistiaid gorau Cymru gyda rhywbeth ar gyfer pob chwaeth cerddorol.

Ymysg y cerddorion fydd yn ymddangos i Gymdeithas yr laith, bydd Gruff Rhys yn gwneud perfformiad arbennig iawn. Dywedodd swyddog adloniant y Gymdeithas, Owain Schiavone:

"Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi ein bod yn mynd i fod yn defnyddio dwy ganolfan wych yn ardal yr Eisteddfod unwaith eto eleni – mae Amser a Cofi Roc yn ddwy o'r canolfannau gigs gorau yng Ngogledd Cymru. Ar ben hyn rydym wrth ein boddau fod Gruff Rhys yn mynd i fod yn perfformio i ni yn ystod yr wythnos, roedd y gig y gwnaeth i'r Gymdeithas yn Solfach adeg Eisteddfod Tŷ Ddewi yn ddigwyddiad gwych a dwi'n gwybod bydd y gig eleni yn arbennig iawn hefyd... allwn ni ddim aros!"

Lleoliadau Gigs Steddfod '05

Undeb Bangor

Amser – clwb nos yr undeb, a chanolfan gigs mawr yr wythnos.
Academi – bar yr undeb, gigs llai a digwyddiadau arbennig yn ystod y prynhawn.

Cofi Roc

Hen ffefrynnau a chyfle i ymlacio yng Nghaernarfon.